# Llyn Du, Cwmystradllyn

Dogfen Tendr ar gyfer gwaith adfer mawndir yn Llyn Du, Cwmystradllyn.



| | |
|---|---|
| **Lleoliad Safle:** | Maes Llech Ganol, Cwm Ystradllyn, LL51 9BQ (SH561424) |
| **Dyddiad Cychwyn:** | 01/12/2025 |
| **Dynodiadau:** | SoDdGA Afon Ddu 31WZU / 2,965.00 |

## Disgrifiad o'r safle

Mae'r safle yma yn Cwm Ystradllyn wedi ei rannu yn ddwy rhan: Y rhan mwyaf, deheuol sydd yn amgylchynu Llyn Du a'r rhan uchaf o'r Afon Ddu. A'r rhan lleiaf, gogleddol sydd yn gorwedd ar hyd afon gyfrannol i'r Afon Henwy (gweler mapiau isod)

Mae'r llyn a'r nant sydd yn llifo drwy'r rhan deheuol yn rhan o'r SoDdGA Afon Ddu, sydd yn rhedeg 3km i lawr o'r llyn a sydd wedi ei ddynodi am un o'r ychydig fannau bridio sydd yn weddill yn Nghymru i'r cregin gleision dŵr croyw. Mae'r dyfyniad SoDdGA hefyd yn nodi presenoldeb dyfrgwn, llygod pengron y dŵr, brithyll y môr a brithyll cynhenid o fewn y cyrsiau dŵr, felly mae gwarchod y cwrs dŵr yma tra'n gweithio yn holl bwysig.

Mae'r ddau safle gyda tirwedd sydd a rhediad ysgafn iddo a'r uchder o gwmpas 210 m. Mae yna glytwaith o gors wedi ddominyddu a *Molinia* a cyforgors lled-naturiol iseldir, cors crynedig, ffen brwynog a glaswelltir garw. Mae'r cynefinoedd gwlyb yma yn creu clustog amddiffynol ar gyfer y nentydd ac yn gynefinoedd pwysig ei hunan. Mae hi'n eithriadol o wlyb mewn mannau, a mae'r corsydd crynedig i'r gorllewin o'r safle ac oamgylch gogledd y llyn yn rhy beryglys i beiriannau (wedi nodi ar y mapiau isod). Mae dyfnder mawn yn amrywio ar hyd y safle, gyda dros 4 m wedi gofnodi mewn rhai mannau, a'r mawn dyfnaf wedi fesur yn 7.3 m.

## Gwaith arfaethedig

Mae yna ffosydd wedi wasgaru ar draws y ddau safle, a rhan fwyaf o'r rhain yn fawr ac agored (gweler mapiau isod). Bydd y ffosydd yma angen eu blocio drwy ddefnyddio dulliau confensiynol. Fodd bynnag, byddem yn dymuno i'r safle edrych mor naturiol a phosib ar ôl gorffen y gwaith, felly gellir amrywio y maint a siap yr argauoedd yma – erenghraifft: ochrau crwm, syth, pyllau bâs a rhai dyfnach (dim dyfnach na 50cm), argauoedd llydan a culach. Dylai'r holl ffosydd gael ei ail-broffilio rhwng yr argauoedd, yn ddelfrydol yn defnyddio y dechneg 'zipio' er mwy llyfnu a llenwi y ffoes gyn gymaint a phosib. Fe ddylai bod gorffeniad llyfn i'r gwaith blocio ffosydd, gan adael dim mawn agored na ymylon garw.

Mae llawer o'r safle wedi ei losgi yn gyson yn y gorffennol. Mae'r llosgi wedi cynyddu y gorchudd *Molinia* mewn modd artiffisial, sydd wedi datblygu i fod yn or-gystadleuol ar draws llawer o'r safle gan leihau yr amrywiaeth a helaethrwydd o rywogaethau cors eraill. Rydym yn gofyn am waith adfer sensitif drwy greu byndiau sgolop yn y rhannau sydd a *Molinia* mwyaf dwys. Mae byndiau sgolop yn isel a chrwm ac a'r wyneb y ddaear sydd yn arafu y llif dŵr ar y wyneb a chreu pyllau bach, cynil ar hyd y safle. Bydd maint a lleoliadau y byndiau yma yn creu edrychiad naturiol, gyda pyllau amrywiol mewn maint a siap, ac amrywiaeth o ddyfnderoedd pwll (ddim mwy na 50cm). Yn yr un modd a'r ffosydd, dylir y gorffeniad i'r byndiau yma fod yn llyfn.

Mae'r safle yn cael ei borri gan wartheg, a bydd hyn yn offeryn rheolaeth pwysig i'r safle wrth symyd ymlaen i'r dyfodol. Felly, dylir pob bwnd a argau ffoes gael ei hadeiladu gyda hyn mewn côf. Mae'n rhaid i'r pyllau gael ymylon a rhediad ysgafn iddynt, a byndiau ac argauoedd yn ddigon cryf i ddal gwartheg.

***Ffigyrau Adfer:***

| | **Rhan Gogleddol** | **Rhan Deheuol** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| **Ffosydd** | 1116m | 3088m | **4204m** |
| **Ardal bwndio** | 5.83ha | 9.67ha* | **15.50ha** |

*1.22ha o'r ardal bwndio yn y rhan deheuol mewn ardal wlypach.

***Offer***

Bydd y gwaith angen ei gyflawni gyda o leiaf un peiriant cloddio ar draciau pwysedd isel gan ddefnyddio matiau cors ble mae'r angen i amddiffyn y llystyfiant a'r mawn. Bydd angen i'r peiriannau fod wedi ei glanhau cyn dod i'r safle i sicrhau bio-diogelwch dda. Bydd y contractwyr yn defnyddio dyfeisiau GPS i leoli y ffosydd ac i gofnodi safleoedd yr argauoedd. Bydd angen llenwi y peiriannau gyda tanwydd gyda system pwmp, a hyny oddi ar y prif ardal mawndir. Gan bod y safle yn hawdd ei gyraedd a'r droed, ni ddylid defnyddio peiriannau eraill fel beiciau cwad.


## Cyflwyno tendr

Mae'n rhaid llenwi y ffurflen ar ddiwedd y ddogfen yma a'i dychwelyd drwy e-bost at rachel.harvey@eryri.llyw.cymru cyn hanner dydd ar **dydd Llun 22 Rhagfyr 2025**. Bydd tendrau yn cael eu dyfarnu ar bris (40%) a safon (60%). Ni fydd unrhyw dendrau a dderbynir ar ôl y dyddiad yma yn cael eu ystyried. Mi fydd APCE yn ceisio rhoi gwybod mewn ysgrifen i'r ymgeiswyr llwyddiannus o fewn dau ddiwrnod o'r dyddiad cau.

Os oes ganddoch unrhyw gwestiynau ynglyn a'r gwaith yma mae croeso i chi gysylltu a Rachel Harvey ar **07464 492647** neu rachel.harvey@eryri.llyw.cymru. Bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus angen darparu datganiad dulliau, asesiad risg, copi o'u yswyriant atebolrwydd cyhoeddus (gyfwerth ac o leiaf £5 miliwn o bunnoedd) a copi o'u tystysgrif cymorth cyntaf i APCE cyn dechrau ar y gwaith.

Yr amserlen ar gyfer y gwaith yma i'w gael ei gwblhau ydy rhwng **Ionawr 1af** a **25 Mawrth 2026**.
Mae'n rhaid anfonebu am y gwaith erbyn **25 Mawrth 2026.**

## Safeloedd Cwmystradllyn - Lleoliad a Mynediad
## Cwmystradllyn Sites - Location & Access




**Graddfa / Scale:** 1:9,000

Dyddiad / Date: 3/12/2025

Creawdwr / Creator: Rachel Harvey



© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2025 AO AC0000825604
© Crown copyright and database rights 2025 OS AC0000825604
© Hawlfraint a hawliau cronfa ddata 2025 Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
© Copyright and database rights 2025 Snowdonia National Park Authority



Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ~ Snowdonia National Park Authority
Swyddfa'r Parc Cenedlaethol ~ National Park Office
Penrhyndeudraeth
Gwynedd
LL48 6LF
☎ 01766 770274


***Lleoliad a Mynediad – Safleoedd Cwm Ystradllyn, LL51 9BQ (SH5614240)*** *Mae Llyn Du, Cwm Ystradllyn wedi leoli ychydig i'r gogledd o Porthmadog. Mae mynediad ar hyd ffyrdd cul ond mae llefydd i barcio a danfon peiriannau. Mynediad i'r safle gogleddol ar hyd trac a drwy giatiau o dir cymdogol.*

# Gogledd Cwmystradllyn North




**Graddfa / Scale:** 1:3,000

Creawdwr / Creator: Rachel Harvey

Dyddiad / Date: 3/12/2025

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2025 AO AC0000825604
© Crown copyright and database rights 2025 OS AC0000825604


© Hawlfraint a hawliau cronfa ddata 2025 Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
© Copyright and database rights 2025 Snowdonia National Park Authority

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ~ Snowdonia National Park Authority
Swyddfa'r Parc Cenedlaethol ~ National Park Office
Penrhyndeudraeth
Gwynedd
LL48 6LF

☎ 01766 770274

***Gogledd Cwmystradllyn – Map Adfer:*** *Ffosydd, ardaloedd Molinia, ardaloedd cors crynedig ar Gogledd Cwm Ystradllyn. Blocio ffosydd confensiynol i'w wneud ar y ffosydd lle mae'n ddiogel i wneud, gwaith bwndio gofalus i'w wneud yn y mannau Molinia lle mae'n ddigoel i wneud.*

## De Cwmystradllyn South




**Graddfa / Scale:** 1:7,000

Creawdwr / Creator: Rachel Harvey

Dyddiad / Date: 3/12/2025

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2025 AO AC0000825604
© Crown copyright and database rights 2025 OS AC0000825604

© Hawlfraint a hawliau cronfa ddata 2025 Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
© Copyright and database rights 2025 Snowdonia National Park Authority

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ~ Snowdonia National Park Authority
Swyddfa'r Parc Cenedlaethol ~ National Park Office
Penrhyndeudraeth
Gwynedd
LL48 6LF
☎ 01766 770274

***De Cwmystradllyn – Map adfer:*** *Ffosydd, ardaloedd Molinia, ardaloedd cors crynedig ar De Cwm Ystradllyn. Blocio ffosydd confensiynol i'w wneud ar y ffosydd lle mae'n ddiogel i'w wneud. Gwaith bwndio gofalus i'w wneud ar yr ardaloedd Molinia lle mae'n ddiogel i'w wneud.*

# Dyfyn-bris ar gyfer gwaith adfer

Rhowch eich dyfyn-bris yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| ***Safle*** | **Llyn Du, Cwm Ystradllyn** |
| ***Cyfanswm*** | |
| ***TAW @20%*** | |
| ***Cyfanswm yn cynnwys TAW*** | |

| |
|---|
| **Amlinellwch eich dulliau ac offer ar gyfer y gwaith:** |

Cadarnhaf i mi ymweld a'r safle hwn cyn cyflwyno y tendr yma .

ENW: CWMNI:

ARWYDDO: DYDDIAD: